Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Aneurin Bevan University Health Board

# Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
# Newyddion y Rhwydwaith Gofal yn y Gymdogaeth (NCN)

RHIFYN 7: Tachwedd 2024 - Ionawr 2025

## Croeso i rifyn saith ein cylchlythyr chwarterol.



**Mae'n bleser gennym ddod â'r newyddion diweddaraf, diweddariadau ac uchafbwyntiau i chi o'r Rhwydweithiau Gofal yn y Gymdogaeth (NCNs) ar draws ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.**

Mae'r cylchlythyr hwn wedi'i gynllunio er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y gwaith anhygoel sy'n digwydd yn ein cymunedau, gan arddangos y mentrau arloesol, y partneriaethau, a'r cyflawniadau sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl.

Boed yn ddigwyddiadau sydd ar y gorwel, straeon ysbrydoledig, neu ddatblygiadau cyffrous, ein nod yw eich cadw mewn cysylltiad a rhoi cyfle i chi gymryd rhan. Diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus—gyda'n gilydd, gallwn gryfhau ein cymunedau a gwella iechyd a lles i bawb.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau'r rhifyn hwn!

I gael rhagor o wybodaeth am y rhaglen NCN, ewch i Rhwydweithiau Gofal yn y Gymdogaeth (NCNs) - Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (gig.cymru), neu anfonwch e-bost at: abb.strategicchangeteam@wales.nhs.uk

**Cynnwys:**

**Tudalen 1**
Cyflwyniad

**Tudalen 2**
NCN Blaenau Gwent

**Tudalen 3**
NCN Caerffili

**Tudalen 4**
NCN Sir Fynwy

**Tudalen 5**
NCN Casnewydd

**Tudalen 6**
NCN Torfaen

**Tudalen 7-8**
Other arall...

### Beth yw Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth (NCN)?

Mae Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth (NCNs) yn dwyn ynghyd wasanaethau iechyd a gofal lleol o fewn ardal ddaearyddol benodol, ac maent fel arfer yn gwasanaethu poblogaethau o 40,000 i 60,000 o bobl.

Mae pob NCN yn cynnwys Meddygon Teulu, Deintyddion, Optometryddion, Fferyllwyr, Nyrsys Cymunedol, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (AHPs), ac arbenigwyr Gofal Cymdeithasol, ac felly maent yn cyfuno ystod eang o arbenigeddau.

Mae gweithio o fewn NCN yn gwella cydlyniant gan sicrhau y gellir asesu anghenion poblogaeth yn well, blaenoriaethu gwelliannau i wasanaethau, a datblygu atebion lleol wedi'u teilwra er mwyn gwella iechyd a lles unigolion a chymunedau.

# Blaenau Gwent

## Uwch Ymarferydd Parafeddygol Rhaglen Osgoi Derbyniadau i'r Ysbyty

Mae NCN Blaenau Gwent wedi lansio'r Prosiect Uwch Ymarferydd Parafeddygol - Osgoi Derbyniadau i'r Ysbyty (APPHAAP) yn llwyddiannus ac maent yn edrych ymlaen at ddatblygu'r prosiect wrth iddo ddod yn wasanaeth sefydledig.
Mae APPs yn glinigwyr arbenigol ac awtonomaidd ac maent yn darparu sgiliau asesu clinigol uwch, diagnosis, triniaeth ac maent yn atgyfeirio cleifion gan ddefnyddio model gofal meddygol/rheoli.

Fel rhan o'r peilot hwn bydd yr APPs yn cynnal ymweliadau cartref i drin ystod o gyflwyniadau meddygol acíwt er mwyn darparu Gofal yn Nes at y Cartref, gan leihau effaith cleifion sy'n defnyddio'r system 999 a throsglwyddo cymesur i ofal eilaidd yn ogystal â chefnogi capasiti Gofal Sylfaenol i helpu i liniaru'r pwysau ar y systemau gofal ehangach.




## Ymddeoliad Hapus Dr Killeen!

Ar ôl 40 mlynedd anhygoel fel meddyg teulu GIG ymroddedig a oedd yn cynnwys yr 13 mlynedd diwethaf fel meddyg teulu annwyl ym Meddygfa Cwm Calon, mae'n bryd dweud hwyl fawr i Dr. Killeen.
Ar hyd ei gyrfa, bu Dr. Killeen yn biler gofal, tosturi ac arbenigedd. Mae hi wedi cyffwrdd â bywydau cleifion di-rif, gan gefnogi teuluoedd trwy gyfnodau heriol a llawen. Mae ei chynhesrwydd, ei hymroddiad, a'i hymrwymiad diwyro i'w chleifion wedi ei gwneud yn rhan annatod o'n cymuned.




Dr. Killeen, bydd eich cydweithwyr a'ch cleifion fel ei gilydd yn gweld eisiau eich presenoldeb caredig yn fawr, ond rydyn ni'n gwybod eich bod yn llwyr haeddu'r cyfle i ymlacio a mwynhau'r bennod newydd hon o'ch bywyd.
Oddi wrth bob un ohonom yn ardal Blaenau Gwent, y tîm NCN a thu hwnt: diolch am bopeth yr ydych wedi'i wneud.
Gan ddymuno hapusrwydd a boddhad i chi yn eich ymddeoliad!

## Canolfan Iechyd a Lles Bevan yn dathlu ei Nadolig cyntaf

I ddathlu eu Nadolig cyntaf yng Nghanolfan Iechyd a Lles Bevan yn Nhredegar a agorodd yn gynharach eleni, trefnodd y Cydlynydd Gofal Seiliedig ar Le, Angela Thompson-Roach ddigwyddiad Nadolig i staff, gan gynnwys gweithgaredd lles a alluogodd staff i addurno eu addurn coeden eu hunain. Roddodd côr Ysgol Gyfun Tredegar, a oedd yn cynnwys myfyrwyr o Flwyddyn 7-11 wledd o ddetholiad o ganeuon Nadoligaidd i staff a chleifion. Diolch arbennig i Kier Construction a fu mor garedig â rhoi £250 i alluogi staff i brynu addurniadau Nadolig ar gyfer y ganolfan.



# Caerffili

## Pop-Up Lles yn Parkrun Coed Cefn-pwll-du



Ar 18 Ionawr 2025, cynhaliodd tîm IWN Caerffili (Cwtsh), mewn partneriaeth â Cysylltwyr Lles, y Cydlynydd Lles Natur, a Meddygfa Tŷ Bryn, pop-up llesiant yn Parkrun Coed Cefn-pwll-du (Machen).

Mae parkrun yn ddigwyddiad cymunedol cynhwysol am ddim lle gall cyfranogwyr gerdded, loncian, rhedeg, gwirfoddoli, neu wylio ar gwrs 5km bob dydd Sadwrn am 9am. Mae yna hefyd parkrun Iau 2km ar gyfer plant 4-14 oed a'u teuluoedd bob dydd Sul.

Gwelwyd 74 o gyfranogwyr ac 16 o wirfoddolwyr hanfodol yn 169fed parkrun Coed Cefn-pwll-du—9 yn fwy na'r wythnos flaenorol. Cyrhaeddodd hyrwyddiad ar-lein 6,785 o bobl trwy Facebook. Yn ystod y digwyddiad, sgwrsiodd y tîm â'r rheiny a oedd yn cymryd rhan am iechyd a lles cymunedol, ar y cwrs ac mewn caffi pop-up.

Roedd y trosfeddiant yn rhan o'r ymgyrch Byddwch yn Actif ehangach, sy'n hybu symud trwy weithgareddau megis garddio, cerdded, neu ganu, sydd o fudd i iechyd corfforol yn ogystal ag iechyd meddyliol. Dewch o hyd i ragor o syniadau am weithgareddau ar wefan Cwtsh: Byddwch yn actif

Mae 10 parkrun ar draws Gwent, gan gynnwys lleoliadau ym Machen, Cwmbrân, a Chasnewydd. Dysgwch fwy yn parkrun UK.

## Hyb Cymunedol yn Parhau i Ffynnu

Mae Canolfan Gwybodaeth ac Adnoddau White Rose, sy'n gonglfaen y gwaith o adfywio Tredegar Newydd ers 2004, yn parhau i fod yn ganolbwynt hanfodol i'r gymuned. Mae'n gartref i Lyfrgell Tredegar Newydd, Caffi Elliot, a mannau cyfarfod, gweithgareddau a chynadledda y gellir eu llogi.

Ym mis Mehefin 2022, cynhaliodd y ganolfan Ŵyl Lles Cwtsh llwyddiannus dros gyfnod o dri diwrnod, a drefnwyd gan IWN Caerffili. Ysbrydolodd y digwyddiad hwn weithgareddau wythnosol parhaus megis Drama Youngstars, Seated Dance, a Chaffi Cwtsh poblogaidd.

Mae Canolfan y White Rose yn parhau i ffynnu, gan gefnogi a chyfoethogi cymuned Tredegar Newydd. Mae'n cynnig ystod eang o weithgareddau rheolaidd ac yn gwasanaethu fel canolfan ar gyfer gwasanaethau hanfodol megis y Banc Bwyd, Swyddfa'r Post, Cymunedau am Waith, a Platfform.

I gael rhagor o wybodaeth e-bostiwch whiteroseirc@gmail.com.

## Cyllidebu Cyfranogol

Mae cyllidebu cyfranogol yn galluogi dinasyddion i helpu i benderfynu sut y caiff arian cyhoeddus ei wario ac mae wedi cael ei roi ar waith ar draws pob awdurdod lleol yng Ngwent, gyda chefnogaeth y Tîm Rhwydwaith Llesiant Integredig.

Ym mwrdeistref Caerffili, fe'i lansiwyd gyntaf yng Nghwm Rhymni Uchaf. Cychwynnodd cyfarfod cyhoeddus ar 19 Chwefror 2024 y broses, gan arwain at ffurfio panel preswylwyr a oedd yn cyfarfod bob yn ail wythnos. Gwahoddwyd grwpiau cymunedol a sefydliadau trydydd sector i gyflwyno prosiectau sy'n mynd i'r afael â'r blaenoriaethau canlynol:

- Amgylchedd adeiledig
- Lles economaidd
- Diogelwch cymunedol
- Cysylltiad cymunedol

Adolygodd y panel geisiadau, ac ar 3 Awst 2024, ar y diwrnod penderfynu yng Nghlwb Rygbi Rhymni, pleidleisiodd 200 o aelodau cymunedol ar wyth prosiect llesiant.

Mae cyllidebu cyfranogol bellach yn cael ei gyflwyno yn Rhisga, gyda'r ail rownd o "Rhymney Decides" yn dechrau fis Tachwedd eleni.

I gael rhagor o wybodaeth e-bostiwch Geraint.Jones@GAVO.org.uk.



# Sir Fynwy

## Cynghorydd Cysylltiadau Lles Sir Fynwy (WBLA)

**Astudiaeth Achos:**

Ceisiodd unigolyn, a oedd yn aros am gwnsela trwy eu meddygfa, help gan Gynghorydd Cysylltiadau Lles (WBLA) ar ôl teimlo wedi blino'n lân yn dilyn tor-perthynas gyda phartner a phartner busnes a oedd yn cam-drin. Fe wnaeth y WBLA eu cysylltu ag adnoddau cymunedol, gan gynnwys gweithiwr Cymorth i Ferched Cyfannol, grŵp garddio lleol, a grŵp cerdded dan arweiniad MIND.

Er bod problemau iechyd corfforol wedi rhwystro eu hymgysylltiad dros dro, dangosodd adolygiad diweddar fod yr unigolyn bellach yn barod i ailgysylltu â gwasanaethau cymorth. Mae'r cysylltiadau hyn, gan gynnwys sesiynau un-i-un gydag arweinydd grŵp cerdded, wedi helpu i atal pobl rhag dychwelyd at y meddyg teulu, gan osgoi argyfwng iechyd meddwl posibl.

Mae'r unigolyn bellach yn canolbwyntio ar ailadeiladu eu busnes a chynnal cydbwysedd iach o ran gwaith/gorffwys, gyda chymorth ychwanegol yn cael ei awgrymu drwy wirfoddoli yn eu gardd.

Mae'r achos hwn yn amlygu gwerth cymorth yn y gymuned o ran cryfhau a chefnogi gwasanaethau meddygon teulu traddodiadol.

## Y Gwasanaethau Dydd yn Ysbyty Dyffryn Mynwy

Mae'r gwasanaethau dydd yn Ysbyty Dyffryn Mynwy yn cefnogi pobl sydd â dementia, gan gynnig diwrnod o weithgareddau, cyfeillgarwch a hwyl.

Mae pawb yn cael eu croesawu, eu cynnwys a'u cefnogi yn ystod y dydd.

Mae unigolion yn gallu cael pryd o fwyd poeth a diodydd wedi'u gweini gan staff arlwyo gwych Dyffryn Mynwy a oruchwylir gan staff y gwasanaeth dydd - pleser yw gweld hyn. Mae bwyd dros ben yn brin iawn!

Dywedodd Leanne Watkins, Pennaeth Gwasanaeth Cynorthwyol BIPAB ar gyfer Sir Fynwy, "ers ymuno â'r tîm dros dro yn Nyffryn Mynwy rwy'n gweld ac yn clywed llawenydd defnyddwyr y gwasanaeth dydd, mae staff yr awdurdod lleol yn wych ac yn trin pob defnyddiwr gwasanaeth fel pe baent yn deulu eu hunain heb os. Clywn yn aml swn canu hen hwiangerddi a cherddoriaeth boblogaidd hŷn eu cyfnod yn dod drwy'r coridorau.

Mae aelodau'r teulu yn cael seibiant haeddiannol tra bod eu hanwylyd yn Nyffryn Mynwy a gwyddom fod hynny'n amhrisiadwy iddynt. Mae'r gwasanaeth hwn yn rhoi gobaith i mi ein bod yn gwneud gwaith gwych i'n cymuned."

## Meddyg Teulu o Sir Fynwy Dr Rowena Christmas yn derbyn MBE yn Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd

Mae Dr Rowena Christmas, meddyg teulu o Sir Fynwy a chadeirydd Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol (RCGP) yng Nghymru, wedi derbyn MBE yn rhestr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd am ei gwasanaethau i Ymarfer Cyffredinol. Ar ôl ymroi 25 mlynedd i'w phractis yn Nhryleg, mynegodd Dr Christmas ei diolchgarwch, gan bwysleisio ei hangerdd dros ymarfer cyffredinol a'i rôl hollbwysig mewn gofal iechyd. Nododd bod hyn yn sicrhau y gellir rhoi gofal cleifion yn nes at y cartref, gan leihau derbyniadau i'r ysbyty a lleddfu pwysau ar y GIG.

Mae ei chydnabyddiaeth wedi cael ei chanmol gan gydweithwyr, gan gynnwys Lloyd Hambridge o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, a ganmolodd ei hymroddiad a rôl hanfodol practis cyffredinol yn y system gofal iechyd.

Mae MBE Dr Christmas yn amlygu pwysigrwydd meddygon teulu o ran darparu gofal hygyrch o ansawdd uchel i gymunedau ledled Cymru.



# Casnewydd

## Canolfan Iechyd a Lles 19 Hills, Ringland

Practis Meddygol Ringland yw'r gwasanaeth cyntaf i symud i'r ganolfan ac fe agorodd i'r cyhoedd ddydd Llun 13eg Ionawr 2025. Yr wythnos hon bydd y Tîm Nyrsio Ardal, y Tîm Ymwelwyr Iechyd, Podiatreg, Therapi Iaith a Lleferydd, Iechyd Rhywiol, Nyrsys Anadlol Cymunedol ac Iechyd Ysgol yn symud i mewn ‘r 19 Hills o Glinig Alway, a bydd sesiynau gwasanaeth iechyd meddwl a mân driniaethau podiatreg yn dechrau ar ddiwedd y mis.

Mae Meddygfa'r Parc yn bwriadu symud i mewn ddiwedd mis Chwefror, ynghyd â'r Clinigau Gwasanaethau Cymunedol a’r bwriad yw cychwyn gweithgareddau lles yn ystod yr wythnos sy’n cychwyn ar y 24ain Chwefror.

Mae gwasanaethau eraill sy’n mynd yn fyw ar 24ain Chwefror 2025 yn cynnwys:

- Awdioleg
- Clinigau Asesu Cof
- CAMHS
- Dieteg
- Rheoli pwysau
- LAC
- Adferiad Pediatrig o salwch
- Adferiad
- Seicoleg Plant a Theuluoedd



Bydd Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol a Chyffredinol yn mynd yn fyw ym mis Mawrth.

## Diweddariad - Grwpiau Iechyd a Lles yng Nghasnewydd - KidCare4U

Mae cyllid NCN Casnewydd yn cefnogi KidCare4U yn 2024/25 i ddarparu prosiectau, cymorth a chyfleoedd i oedolion a phlant o gymunedau ethnig difreintiedig ledled Casnewydd.

Mae KidCare4U, elusen gofrestredig, yn helpu teuluoedd i feithrin sgiliau a hyder, gan hybu iechyd a lles trwy weithgarwch corfforol a bwyta'n iach. Mae'r elusen hefyd yn gweithio i leihau rhwystrau rhwng grwpiau ethnig difreintiedig a chymunedau eraill.

Mynegodd Rusna Begum, Sylfaenydd KidCare4U, ei ddiolchgarwch am y cyllid NCN, sydd wedi cefnogi eu grwpiau menywod yn sylweddol. Tynnodd sylw at effaith y cyllid ar hybu iechyd, cynyddu gweithgaredd corfforol, a darparu cymorth iechyd meddwl, gyda chyfieithwyr ar y pryd yn sicrhau nad yw iaith yn rhwystr. Mae hyfforddiant staff hefyd wedi eu grymuso i gefnogi eu cymunedau yn well.

## Eicon Fferyllfa Bettws Yn Ymddeol Ddydd Gwener Ar ôl 59 Mlynedd o Wasanaeth

Mae Betty Pritchard, 91 oed, yn ymddeol ar ôl 59 mlynedd o wasanaeth yn Fferyllfa Watkin-Davies yn Betws, Casnewydd. Gan ddechrau ei gyrfa dros saith degawd yn ôl, daeth Betty yn ffigwr annwyl yn y fferyllfa, ar ôl gweithio mewn fferyllfa ar Ffordd Malpas cyn hynny.

Wrth fyfyrio ar ei hamser yn y fferyllfa, dywedodd Betty, "Mae'r cwsmeriaid a'r staff yn anhygoel, ac mae'r gymuned leol mor ffyddlon."

Trwy gydol ei gyrfa, gwelodd Betty lawer o newidiadau yn y proffesiwn, gan gynnwys y dyddiau "pan oeddem yn arfer rhoi pennau pabi ar bresgripsiwn ar gyfer y ddannoedd".

I ddathlu ei hymddeoliad, rhoddodd cydweithwyr a chwsmeriaid Betty ffarwel twymgalon iddi a daeth llu o anrhegion a diolchiadau i mewn.

Mae ymadawiad Betty yn nodi diwedd cyfnod yn Fferyllfa Watkin-Davies, lle bydd colled fawr ar ei hôl.



# Torfaen

## Tîm Rhywedd Lleol yn Nhorfaen

Mae’r Tîm Rhywedd Lleol (LGT), neu ‘Clinig Alex’, a sefydlwyd ym mis Mai 2020, yn gweithio ochr yn ochr â Thîm Rhywedd Cymru (WGT) yng Nghaerdydd i ddarparu therapi hormonau i gleifion BIPAB sy’n 18 oed a hŷn. Bu iddynt ddechrau gyda 15 o gleifion, ond mae'r tîm bellach yn cefnogi 163 o gleifion gweithredol, ac mae 54 ar restr aros. Maent yn gweithredu o'r Uned Cedar yn Ysbyty'r Sir, Pont-y-pŵl, ac maent yn rhoi pigiadau hormonau yn yr Adran Cleifion Allanol.

Mae’r tîm yn cynnwys Dr Eleri Roberts, Dr Sarah Jones, a’r Gweinyddwr Charlotte Black. Dylai cleifion sy'n dymuno cael eu hatgyfeirio gysylltu â'u meddyg teulu. Gall pobl 17 oed a hŷn gael eu hatgyfeirio'n uniongyrchol drwy WCCG, ond mae’n rhaid i’r rheiny o dan 17 oed fynd drwy CAMHS.

Ar ôl i'r WGT gwblhau asesiadau, caiff cleifion sy'n dymuno dechrau therapi hormonau eu hatgyfeirio at yr LGT. Er bod rhestr aros, mae'r tîm yn gweithio i leihau amseroedd aros. Mae therapi hormonau yn dechrau ar ôl ymgynghoriad ffôn cychwynnol, ac mae atgyfeiriadau ar gyfer lleferydd ac iaith (SALT) neu gadw gamet ar gael os oes angen.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag ABB.AlexClinic@wales.nhs.uk.

## Sandy Bear yn Nhorfaen

Mae Sandy Bear yn elusen sy’n canolbwyntio ar wella iechyd a lles emosiynol plant, pobl ifanc a theuluoedd yr effeithiwyd arnynt gan farwolaeth anwyliaid. Eu nod yw lleihau anawsterau emosiynol ac atal problemau iechyd meddwl hirdymor.

Gan gynnig cefnogaeth 1:1 a grŵp cymorth cyfoedion, mae Sandy Bear hefyd yn helpu rhieni a gofalwyr i reoli eu galar eu hunain a chefnogi eu plant. Maent yn darparu hyfforddiant wedi'i deilwra i weithwyr proffesiynol, gan gynnwys nyrsys ysgol, gweithwyr gwasanaethau brys, a staff iechyd a gofal cymdeithasol, ar reoli profedigaeth mewn lleoliadau amrywiol.

Rydym yn falch bod y gwasanaeth hwn bellach ar gael yn Nhorfaen, gan ddarparu cymorth hanfodol i deuluoedd lleol.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.sandybear.co.uk.

## Beth yw'r CATCH?

Mae'r Tîm Asesu Clinigol ar gyfer Cartrefi Gofal (CATCH) yn cydweithio â phractisau meddygon teulu yn Nhorfaen i ddarparu gofal iechyd gwell i breswylwyr mewn cartrefi nyrsio a chartrefi gofal preswyl. Gan weithio gyda staff cartrefi gofal a thîm amlddisgyblaethol cymunedol, mae nyrsys CATCH yn cynnal asesiadau cynhwysfawr, yn gwneud atgyfeiriadau, ac yn trafod dewisiadau gofal o flaen llaw gyda phreswylwyr a theuluoedd er mwyn sicrhau gofal priodol.

Mae gwasanaeth CATCH yn cynnwys: Asesiadau clinigol yr un diwrnod gan ymarferydd nyrsio; Hyrwyddo Rhag-gynllunio Gofal (ACP); Strategaethau osgoi ysbytai; Cefnogaeth a chyngor i staff cartrefi gofal ar gyfer darparu gofal diogel; Cyflwyno'r DES cartref gofal gyda chytundebau gwasanaeth perthnasol; Rhoi brechlyn ffliw/Covid pan nad yw practisau meddygon teulu neu wasanaethau DN ar gael; Cefnogaeth yn ystod achosion o glefydau heintus; Asesiadau ffit-i-deithio ar gyfer preswylwyr sy'n symud cartrefi; ac Asesiadau cwympiadau ar




gyfer preswylwyr nad ydynt yn gallu ymuno â rhaglenni cwympiadau ffurfiol.

Mae Viki Brice, Arweinydd Tîm, CATCH Torfaen, yn rhoi trosolwg o’r Gwasanaeth CATCH mewn fideo byr:

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â viki.brice@wales.nhs.uk.

## Newyddion arall...




### Ymgyrch Newydd i Godi Ymwybyddiaeth o Sepsis i gael ei Lansio yng Ngwent

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Sepsis y DU, yn lansio ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o sepsis ymhlith staff a'r cyhoedd.

Mae Sepsis, cymhlethdod sy'n deillio o haint sy'n bygwth bywyd, yn hawlio pum bywyd bob awr yn y DU. Mae adnabod sepsis yn gynnar a gweithredu'n gyflym yn hanfodol i achub bywydau, ond mae ymwybyddiaeth o'i symptomau yn parhau i fod yn isel. Nod yr ymgyrch yw tynnu sylw at yr arwyddion rhybudd cynnar, nodi'r rhai sydd fwyaf mewn perygl, ac annog pobl i geisio cymorth yn gyflym.

Bydd yr ymgyrch yn cael ei lansio ar gyfer staff ar ddiwedd 2024, bydd negeseuon i'r cyhoedd yn dilyn yn y misoedd nesaf, ac mae tudalen sepsis newydd eisoes wedi mynd yn fyw ar ein gwefan abuhb.nhs.wales/sepsis.

Pwysleisiodd James Calvert, Cyfarwyddwr Meddygol, faint o frys sydd i adnabod sepsis yn gynnar. "Mae Sepsis yn argyfwng meddygol sydd angen triniaeth gyflym. Mae pob awr yn cyfrif, felly mae codi ymwybyddiaeth yn hanfodol i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i gleifion."

### Diweddariad Gwasanaeth Presgripsiwn Electronig Gofal Sylfaenol (EPS).

Mae GIG Cymru yn symud o broses presgripsiwn ar bapur i wasanaeth digidol.

Bydd y Gwasanaeth Presgripsiwn Electronig (EPS) yn dod â buddion i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ym maes gofal sylfaenol, gan ei gwneud yn haws, yn fwy diogel ac yn fwy effeithlon i chi bresgripsiynu a dosbarthu meddyginiaethau.

Mae EPS yn broses electronig o'r cychwyn i'r diwedd, sy'n caniatáu i feddygon teulu a rhagnodwyr eraill anfon presgripsiynau'n electronig i fferyllfa neu ddosbarthwr a ddewisir gan y claf.

Mae rhoi hyn ar waith yn dibynnu ar gyd-ddibyniaethau ac mae DHCW yn gweithio'n agos gyda byrddau iechyd i drefnu'r broses o gyflwyno hyn. O ystyried maint a chymhlethdod y dasg, dechreuodd y broses gyflwyno gyda'r mathau cyntaf o gymeradwyo ym mis Ebrill 2024 a bydd yn rhedeg tan 30ain Medi 2027. Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, mae cynnydd wedi'i wneud ac mae 5 practis meddyg teulu ac 14 o fferyllfeydd cysylltiedig wedi mynd yn fyw.

Mae'r cychwyn cymharol araf hwn wedi digwydd oherwydd y broses sicrwydd ar gyfer cyflenwyr systemau o ran cyd-ddibyniaethau prastisiau a fferyllfeydd.

Gan bod pob cyflenwr system bellach wedi'i gymeradwyo, bydd y broses o gyflwyno yn cyflymu.

Ers lansio EPS yng Nghymru ym mis Tachwedd 2023, mae dros 630,000 o eitemau presgripsiwn wedi'u dosbarthu gan 25 o bractisau meddygon teulu ac wedi'u dosbarthu gan 128 o fferyllfeydd, sy'n nodi cynnydd sylweddol.

I gael rhagor o wybodaeth am EPS, ewch i dudalennau gwe DHCW https://dhcw.nhs.wales/product-directory/our-digital-services/eps

### Academi Gofal Sylfaenol a Gofal Cymunedol yn Lansio Llawlyfr Cyrsiau Newydd

Mae'r Academi Gofal Sylfaenol a Gofal Cymunedol wedi cyhoeddi llawlyfr cyrsiau newydd er mwyn hybu cyfleoedd addysg a hyfforddiant ar gyfer cydweithwyr sy'n gweithio o fewn Gofal Sylfaenol a Gofal Cymunedol.

Mae'r llawlyfr yn rhoi gwybodaeth fanwl am yr Academi, trosolwg o'r cyrsiau sydd ar gael a dolenni i archebu lle. Er mwyn sicrhau bod y wybodaeth ddiweddaraf ar gael i ddefnyddwyr, bydd y llawlyfr electronig yn cael ei ddiweddaru'n gyson wrth i ddigwyddiadau addysg a hyfforddiant newydd gael eu hychwanegu at y rhaglen.

## Grŵp Cymorth Arweinwyr Proffesiynol Nyrsio

Cynhaliom ein Grŵp Cymorth Arweinwyr Proffesiynol Nyrsio ar 6ed Rhagfyr i rannu, cefnogi a dathlu blwyddyn datblygu'r Cydweithrediadau Nyrsio Proffesiynol ym mhob Ardal o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Roedd y digwyddiad a fynychwyd gan lawer, a agorwyd gan Lucy Kings, Pennaeth Nyrsio Gofal Sylfaenol, yn cynnwys adolygiad o'r flwyddyn ddiwethaf a chafwyd cip tua'r dyfodol gan yr Arweinydd y Cydweithrediadau Nyrsio o bob un o'r pum Bwrdeistref.

Dywedodd Lucy, "Mae heddiw'n ymwneud â'n taith hyd yn hyn a chefnogi ein arweinwyr. Mae dod at ei gilydd i gael sgyrsiau agored a gonest yn grymuso nyrsys yn fawr. Mae'n ymwneud â ni'r nyrsys a'r hyn y gallwn ei wneud i gefnogi ein cymunedau".

Os hoffech ragor o wybodaeth am y Gydweithrediad Proffesiynol Nyrsio, cysylltwch â: katie.molumby@wales.nhs.uk




## Presgripsiynu Natur yng Nghasnewydd

Mae'r Rhwydwaith Lles Integredig, mewn partneriaeth â'r RSPB a sefydliadau lleol eraill, yn dylunio prosiect Presgripsiwn Natur newydd i gysylltu pobl â gweithgareddau natur sy'n gwella lles corfforol a lles meddyliol. Mae gweithgareddau'n cynnwys grwpiau cerdded, garddio cymunedol, gwirfoddoli cadwraeth, a rhaglenni tyfu bwyd.

Mae'r prosiect yn annog pobl i ymgysylltu â byd natur mewn ffyrdd syml, ystyrlon, megis gwrando ar gân adar neu wylio machlud. Mae practisau ledled Casnewydd eisoes yn cymryd rhan, ac mae tîm y prosiect yn croesawu mewnbwn pellach.

I helpu i lsiapio'r prosiect, e-bostiwch info@yournewport.co.uk.



## Lansio Canolfannau Dementia Ledled Gwent

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent yn falch iawn o gyhoeddi lansiad Hybiau Dementia ledled Gwent! Mae'r canolfannau hyn yn fannau pwrpasol lle gall unigolion sy'n byw gyda dementia, eu teuluoedd, a gofalwyr gael mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth hanfodol.

Maent yn rhoi cyfle i bobl ddod at ei gilydd i greu cymuned gefnogol a sicrhau nad oes neb yn wynebu dementia ar ei ben ei hun.

I weld 📍 lleoliadau ac 🕒 oriau agor ewch i: http://www.gwentrpb.wales/dementia-hubs

Neu cysylltwch â Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent yn uniongyrchol:

📩 E-bost: gwentregionalpartnershipboard@torfaen.gov.uk

Rhif ffôn: 01495 761691



Mae pob rhifyn o'n cylchlythyr chwarterol ar gael ar Wefan BIPAB.
Os hoffech gael mwy o wybodaeth am unrhyw un o'r straeon dan sylw neu os ydych am gael eich ychwanegu at ein rhestr bostio er mwyn derbyn y cylchlythyr hwn, anfonwch e-bost at lisa.orford@wales.nhs.uk.